

Adolygiad Gwella Ansawdd

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Yr Adroddiad Technegol

Mawrth 2022



Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr [Adolygiad Gwella Ansawdd](#) ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.¹

Ym mlwyddyn academiaidd 2021-22, roedd cwrpas yr Adolygiadau Gwella Ansawdd yn canolbwyntio ar faterion sicrhau ansawdd, yn unol â'r newidiadau a wnaed gan CCAUC i'r gofynion am sicrwydd ansawdd allanol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. O ganlyniad, cyhoeddodd QAA adendwm i Lawlyfr yr Adolygiad Gwella Ansawdd sy'n esbonio'r addasiadau i weithrediad y dull adolygu. Yn 2021-22, mae cyfle i ddarparwyr ymgysylltu â QAA ar wahân mewn perthynas â materion gwella ansawdd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch \(QAA\)](#).²

Yr adolygiad hwn

Dyma Adroddiad Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu ar-lein rhwng 21 a 24 Mawrth 2022. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Yr Athro Diane Meehan
- Dr Katie Thirlaway
- Mr Matthew Kitching (adolygwr sy'n fyfyrwr)

Cyn yr ymweliadau adolygu, cyflwynodd y darparwr ddogfen hunanwerthuso (y Dadansoddiad Hunanwerthuso) a Phecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw, sy'n cynnwys ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r darparwr i reoli safonau academiaidd ac ansawdd.

Yr adroddiad hwn

Yn yr adroddiad hwn, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Gallwch weld y beirniadaethau ar dudalen 2, ac mae canfyddiadau manwl yr adolygiad yn dilyn y rheiny mewn paragraffau wedi eu rhifo.

Mae Adroddiad Technegol yn nodi barn tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd o dan bob un o benawdau'r adroddiad. Mae Adroddiad Canlyniadau byrrach yn nodi prif ganfyddiadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd i gynulleidfa ehangach. Mae'r [Adroddiad Canlyniadau](#) ar gyfer yr adolygiad hwn ar gael ar wefan QAA.³

Mae Adroddiadau Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd wedi eu bwriadu'n bennaf i'r darparwyr dan sylw, ac i ddarparu sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws ystod o ddarparwyr.

¹ Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd:

www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.

² Rhagor o wybodaeth am QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.

³ Yr Adroddiad Canlyniadau:

www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-Cymru-Y-Drindod-Dewi-Sant

Y feirniadaeth drosfwaol am Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academiaidd, i reoli ansawdd academiaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

1.1 Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol

1 Crëwyd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (y cyfeirir ati fel 'y Brifysgol' neu PCYDDS o hyn ymlaen) ar 18 Tachwedd 2010 drwy gyfuno Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin, o dan Siarter Frenhinol 1828 Prifysgol Cymru, Llanbedr. Yn 2013, daeth Prifysgol Fetropolitan Abertawe yn rhan o PCYDDS; yna daeth Coleg Sir Gâr yn 2013-14 a Choleg Ceredigion yn 2014-15 yn bartneriaid sector deul, gan greu Grŵp PCYDDS. Ers 2014, mae PCYDDS wedi bod yn dyfarnu ei dyfarniadau ei hun, yn hytrach na rhai Prifysgol Cymru. Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi ei thrwyddedu gan Pearson i gynnig cymwysterau Cenedlaethol Uwch ac mae'n gweithio gyda nifer fechan o gyrff dyfarnu eraill, yn bennaf mewn perthynas â chymwysterau proffesiynol. Cenhadaeth y Brifysgol yw 'Trawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau'. Mae ei gweledigaeth, ei gwerthoedd a'i blaenoriaethau strategol wedi eu disgrifio yn ei Chynllun Strategol 2017-2022. Y weledigaeth hon yw bod yn Brifysgol i Gymru, ac mae ymrwymiad i les a threftadaeth y genedl yn greiddiol i bopeth y mae'r Brifysgol yn ei wneud.

1.2 Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thuueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwyllir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau

2 Mae gan y Brifysgol gampysau yn Birmingham, Caerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan, Llundain ac Abertawe, a chan bob un ei hunaniaeth amlwg ei hun; mae ganddi ganolfannau dysgu yng Nghaerdydd hefyd. Trwy ei phartneriaid sector deul a'i chyfleusterau allgymorth, mae hefyd yn cynnig darpariaeth addysg mewn amrywiaeth o leoliadau eraill yn Ne Cymru. Nid oes un 'prif' gampws, ac mae pob athrofa'n gweithio ar draws o leiaf ddau leoliad. I ddiogelu hunaniaeth unigryw pob campws, penodwyd tri Phrofost yn 2019: Llundain/Birmingham, Caerfyrddin/Llanbedr Pont Steffan, ac Abertawe/Caerdydd.

3 Ym mlwyddyn academiaidd 2020-21, roedd gan y Brifysgol gyfanswm o 22,884 o fyfyrwyr cofrestredig, yr oedd 5,153 ohonynt yn astudio yn ei sefydliadau partner cydweithredol a'i cholegau cyfansoddol. O'r myfyrwyr hyn, mae 9,483 (42%) yn astudio ar gyfer eu gradd israddedig gyntaf, mae 8,075 (35%) yn astudio ar gyrsiau israddedig eraill, mae 4,272 (19%) yn astudio ar raglenni ôl-raddedig a addysgir ac mae 852 (4%) yn gwneud gwaith ymchwil ôl-raddedig. Ar y cyfan, mae 4,802 o fyfyrwyr yn astudio'n rhan amser. Cynigir clystyrau o ddarpariaeth academiaidd drwy bedair athrofa: yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau, yr Athrofa Dysgu Canol Dinas, yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd, ac Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru. Trwy'r fframwaith ar gyfer darpariaeth gydweithredol, mae gan yr athrofeydd gysylltiadau ffurfiol â cholegau cyfansoddol Grŵp PCYDDS a sefydliadau partner cydweithredol y Brifysgol.

1.3 Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad

4 Paratôdd y Brifysgol ar gyfer yr adolygiad drwy sefydlu gweithgor bychan i gydlynu ei chyflwyniad. Rhoddodd y gweithgor, oedd yn cynnwys cynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr, adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Safonau Academaidd a'r Senedd. Cynhyrchwyd y fersiwn drafft cychwynnol o'r Ddogfen Hunanwerthusiad gan y Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Profiad Academaidd) a'r Cyfarwyddwr Profiad Academaidd. Roedd y fersiwn drafft yn defnyddio gwybodaeth o ddadansoddiad manwl o ymlyniad y Brifysgol â Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU a'r Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG).

5 Cynhaliodd y sefydliad ymgynghoriad drwy gynnal cyfres o gyfarfodydd wythnosol ac roedd y gweithgor yn tynnu cynrychiolwyr ychwanegol o'r amrediad o unedau academaidd a phroffesiynol ac o Undeb y Myfyrwyr. Ymgynghorwyd hefyd â nifer o grwpiau eraill, yn cynnwys aelodau allweddol o'r staff uwch. Defnyddiwyd y sylwadau a dderbyniwyd drwy'r sianelau amrywiol hyn i hysbysu'r gwaith o baratoi'r ddogfen derfynol, a gymeradwywyd yn ffurfiol gan y Senedd ar 24 Tachwedd 2021 a'r Cyngor ar 25 Tachwedd 2021.

1.4 Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol

6 Cafwyd yr Adolygiad Addysg Uwch blaenorol gan QAA yn 2015; roedd y Brifysgol yn bodloni disgwyliadau'r DU mewn perthynas â safonau academaidd, ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr, gwybodaeth, a gwelliant. Nododd yr adroddiad a gafwyd o ganlyniad i hwn bedwar argymhelliad, pedwar cadarnhad a thair nodwedd o arfer da. Ystyriwyd yr adroddiad ar y pwyllgorau perthnasol a chynhyrchwyd cynlluniau gweithredu, a chawsent hwythau eu tracio hyd eu cyflawni a'u cymeradwyo gan y Senedd. Mae'r Brifysgol wedi adeiladu ar yr arferion da a nodwyd ac mae wedi cymryd camau gweithredu priodol mewn perthynas â'r argymhellion a'r cadarnhadau.

7 Dyma oedd y pedwar argymhelliad a'r camau gweithredu cysylltiedig: egluro aelodaeth, presenoldeb, cylch gwaith a gofynion adrodd pob un o'r byrddau o fewn strwythur byrddau arholi'r Brifysgol, sydd wedi eu nodi'n glir erbyn hyn yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd; mabwysiadu dull gweithredu cyson o sicrhau bod y myfyrwyr i gyd yn derbyn meini prawf graddio clir sy'n eu galluogi i ddeall beth sy'n ofynnol er mwyn cyflawni gradd benodol - cyflawnwyd hyn drwy fabwysiadu meini prawf marcio cyffredin i'r Brifysgol gyfan; sicrhau bod adborth o asesiadau'n cael ei ddarparu yn unol â gofynion y Brifysgol - cyflawnwyd hyn drwy weithredu system i olrhain adborth; a chryfhau'r trefniadau adrodd ar gyfer arholi allanol yr holl ddarpariaeth gydweithredol - cyflawnwyd hyn drwy ofyn i arholwyr allanol rhaglenni a ddarperir drwy bartneriaid cydweithredol roi adroddiad ar wahân ar gyfer pob partner.

8 Ers yr Adolygiad Addysg Uwch yn 2015, mae QAA wedi gwneud nifer o adolygiadau eraill o wahanol rannau o ddarpariaeth y Brifysgol, yn cynnwys yr Adolygiadau Addysg Drawswladol o'r ddarpariaeth gydweithredol yng Ngholeg IBAT yn Nulyn yn 2017 ac Academi Ryngwladol Malvern yn Kuala Lumpur yn 2019; adolygiad rhannol o'r ddarpariaeth yn Birmingham yn 2019; adolygiad datblygiadol o ddarpariaeth prentisiaethau a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn 2021; ac adolygiad thematig o ddysgu digidol yn 2021 - cafodd pob adolygiad ganlyniadau cadarnhaol yn gyffredinol. Yn dilyn yr adolygiadau thematig a datblygiadol, cynhyrchwyd cynlluniau gweithredu a chawsent hwythau eu tracio hyd eu cyflawni, ac maent yn cael eu tracio ar hyn o bryd mewn perthynas â'r adolygiadau diweddaraf.

9 Barnodd yr adolygiad rhannol o gampws Birmingham yn 2019 fod y Brifysgol yn bodloni gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol a gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Canlyniad yr adolygiad oedd dwy ganmoliaeth, tri argymhelliad a dau gadarnhad, a gall y tîm adolygu gadarnhau bod y Brifysgol wedi cymryd, ac yn parhau i gymryd, camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

10 Dyma oedd y tri argymhelliad: bod y Brifysgol yn sefydlu mecanweithiau i gryfhau'r sicrwydd bod safonau academiaidd y dyfarniadau ar wahanol safleoedd yn gymaradwy; yn sicrhau y bydd y myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth fwy eglur yn y dyfodol am argaeledd a natur y rhaglen Tystysgrif Addysg Uwch mewn Rheolaeth Gwestai Rhyngwladol; ac yn cyflwyno system gynhwysfawr i gasglu a dadansoddi data'n systematig am foddhad y myfyrwyr ar lefel y modiwlau a'r rhaglenni yng Nghanolfan Ddysgu Birmingham.

11 Mewn ymateb i'r argymhelliad cyntaf, mae'r Brifysgol wedi cyflwyno bwrdd rhaglenni aml-gampws ychwanegol sy'n dod â thimau'r rhaglenni at ei gilydd o'i hamrywiol safleoedd ac sy'n ceisio sicrhau cydraddoldeb ym mhrofiadau a chanlyniadau'r myfyrwyr rhwng ei safleoedd darparu. Ym mlwyddyn academiaidd 2020-21, mae'r Brifysgol hefyd wedi penodi adolygwyr rhaglen allanol i gymharu perfformiad ar draws ei safleoedd ac i gyflwyno elfen o allanoldeb ychwanegol; disodlwyd y dull hwn yn 2021-22 gan adroddiad ychwanegol y broses Adolygiad Blynyddol Rhaglenni (ABRh) i alluogi cymharu safonau ar draws y safleoedd. Bydd effeithiolrwydd y dull diwygiedig hwn yn cael ei asesu yn ystod cyfarfod blynyddol 2022 y Pwyllgor Safonau Academiaidd yn rhan o'r broses ABRh.

12 Mewn ymateb i'r ail argymhelliad, cynhyrchwyd gwybodaeth farchnata ddiwygiedig; mewn perthynas â'r trydydd argymhelliad, mae datblygu holiaduron modiwl ar-lein wedi gwella ymgysylltiad y myfyrwyr â'r systemau adborth. Mae'r Brifysgol hefyd wedi gwella ei phrosesau ar gyfer penodi staff llawn amser ac ymsefydlu myfyrwyr cyn ac ar ôl cyrraedd, ac mae'n rhoi cefnogaeth ychwanegol iddynt i ddatblygu eu sgiliau Saesneg. Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi adolygu ei Pholisi Camymddwyn Academiaidd yn sylweddol ac, o 2021-22, mae wedi gwneud sesiynau am uniondeb academiaidd yn orfodol i'r holl staff academiaidd yn yr Athrofa Dysgu Canol Dinas ac mae'n cynhyrchu adroddiad blynyddol am uniondeb academiaidd i'r Senedd a'r Cyngor.

1.5 Manylion cyfrifoldebau'r darparwr am y ddarpariaeth addysg uwch y mae'n ei darparu ar ran y corff/cyrff dyfarnu graddau y mae'n gweithio mewn partneriaeth ag o/ â nhw

13 Ers 2014, mae'r Brifysgol wedi bod yn dyfarnu ei graddau ei hun, yn hytrach na rhai Prifysgol Cymru. Mae nifer fechan o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn dal wrthi'n cwblhau dyfarniadau Prifysgol Cymru, gan gynnwys myfyrwyr a gofrestrodd cyn 2014 ac a ddewisodd aros ar ddyfarniadau Prifysgol Cymru, myfyrwyr oedd wedi eu cofrestru yn Ysgol Reolaeth Greenwich (GSM) Llundain drwy Brifysgol Cymru sydd yn awr yn cael eu goruchwyllo i gwblhau dyfarniadau Prifysgol Cymru gan y Brifysgol, a myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar ddyfarniadau Prifysgol Cymru gyda'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd (CUCC) a ddaeth yn rhan o'r Brifysgol yn 2019. Mae'r myfyrwyr hyn yn cael eu monitro gan Bwyllgor Graddau Ymchwil y Brifysgol, a gan Bwyllgor Graddau Ymchwil Prifysgol Cymru hefyd. Mae cadeirydd Pwyllgor Graddau Ymchwil y Brifysgol yn eistedd ar Fwrdd Prifysgol Cymru, ac mae'r Brifysgol yn cynhyrchu adroddiad monitro blynyddol am fyfyrwyr gradd ymchwil Prifysgol Cymru i'r bwrdd hwn.

14 Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu cymwysterau Cenedlaethol Uwch o dan drwydded Pearson. Ni chanfuwyd unrhyw broblemau sylweddol yn adroddiad Adolygiad Sefydliadol Pearson 2019-20.

2 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academiaidd

2.1 Nodweddion allweddol dulliau'r darparwr o reoli ansawdd a'r ffordd y mae'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o reoli ansawdd y cyfleoedd dysgu

15 Y gyntaf o bedair prif flaenoriaeth y Brifysgol yw 'Rhoi Dysgwyr yn Gyntaf'. Yn y pen draw, mae'r cyfrifoldeb am ansawdd a safonau'r dysgu a'r dyfarniadau ar gyfer rhaglenni a addysgir yn gorwedd gyda'r Senedd, sy'n adrodd i'r Cyngor. Mae'r Senedd yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am oruchwyliaeth fanwl o ansawdd a safonau'r dyfarniadau a addysgir i'r Pwyllgor Safonau Academiaidd. Rhennir yr oruchwyliaeth ganolog a'r rheolaeth ar ansawdd rhwng dwy uned broffesiynol: y Swyddfa Academiaidd a'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol. Mae'r Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Profiad Academiaidd) yn goruchwyllo'r Swyddfa Academiaidd, ac mae'r Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Ymgysylltiad Rhyngwladol) yn goruchwyllo'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol. Sicrhawyd y tîm adolygu nad oedd y gwahanu hwn rhwng goruchwyllo'r ddarpariaeth 'gartref' a'r ddarpariaeth gydweithredol yn achosi unrhyw anghysondeb.

16 Rhennir y cyfrifoldeb am reoli ansawdd rhwng y gwasanaethau canolog a'r pedair athrofa. Yn ystod y cyfnod ers yr adolygiad blaenorol, dirprwywyd rhagor o gyfrifoldeb i'r athrofeydd i'w galluogi i gyflawni eu portffolios penodol yn briodol (er enghraifft, Prentisiaethau Gradd) ac ymateb yn briodol i'w gwahanol grwpiau o fyfyrwyr (er enghraifft, myfyrwyr hŷn). Mae'r Brifysgol wedi atgyfnerthu arweinyddiaeth yr athrofeydd ym maes sicrhau ansawdd drwy benodi Deoniaid Cynorthwyol sydd â chyfrifoldeb am ansawdd. Mae'r Deoniaid Cynorthwyol yn eistedd ar y Pwyllgor Safonau Academiaidd, a dywedwyd wrth y tîm adolygu bod hyn wedi eu galluogi nhw i sicrhau cysondeb y prosesau sicrhau ansawdd ar draws pob un o'r pedair athrofa.

17 Nododd y tîm adolygu fod y Brifysgol, yn unol â'r sector, yn symud tuag at ddull o sicrhau ansawdd sy'n ystyried risgiau, a bod Gweithgor y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd, yn gyfatebol â'r dull hwnnw, yn symud o fframwaith rheoleiddio (a pholisïau cysylltiedig) sydd wedi ei seilio ar brosesau i fframwaith sydd wedi ei seilio ar egwyddorion. Mae'r newid hwn mewn ethos yn cefnogi ymhellach symudiad y rheolaeth weithredol ar ansawdd i'r athrofeydd. Rhoddwyd sicrwydd i'r tîm bod y newidiadau hyn yn hwyluso gwelliant mewn ansawdd.

18 Mae'r Brifysgol wedi ei hymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'i myfyrwyr a gydag Undeb y Myfyrwyr a gydnabyddir fel llais y myfyrwyr. Mae Siarter y Myfyrwyr yn amlinellu'r berthynas rhwng myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru yn y Brifysgol a'r rheiny sydd wedi eu cofrestru yn y sefydliadau partner cydweithredol. Mae'r myfyrwyr wedi eu cynrychioli ar bob lefel o brosesau penderfynu'r Brifysgol, a rhoddwyd sicrwydd i'r tîm bod hyn ar waith ymhob un o'i phedair athrofa ac yn sefydliadau ei phartneriaid cydweithredol. Fodd bynnag, nododd y tîm adolygu nad oedd y myfyrwyr yn teimlo eu bod yn gallu cyfranogi'n llawn bob amser. Er enghraifft, roedd papurau pwyllgorau'n cyrraedd yn rhy hwyr weithiau i gael eu darllen yn llawn. Mae'n bwysig bod cynrychiolwyr y myfyrwyr yn derbyn cefnogaeth lawn i allu cyflawni eu dyletswyddau ar bwyllgorau penderfynu allweddol er mwyn hwyluso cyfundrefnu polisïau cynrychiolaeth myfyrwyr da fel arferion da i bob un o'r sefydliadau.

19 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd yn nodi bod y myfyrwyr yn cyfranogi ymhob cam sicrhau ansawdd allweddol mewn perthynas â'u rhaglenni astudio: datblygu, sicrhau a gwella. Tynnodd cyflwyniad y myfyrwyr sylw at y ffaith bod y myfyrwyr yn anfodlon â'r modiwlau Priodoleddau Gradedigion generig a gyflwynwyd i bob rhaglen yn 2020 er mwyn cefnogi'r myfyrwyr gyda'r ddibyniaeth gynyddol ar dechnoleg ar gyfer addysgu, yn y gweithle ac i'w paratoi ar gyfer byd gwaith. Roedd y myfyrwyr yn cwestiynu eu perthnasedd a'u dull asesu. Sicrhawyd y tîm adolygu yng nghyflwyniad y myfyrwyr ac yng nghyfarfodydd y tîm adolygu fod y myfyrwyr o'r farn eu bod yn derbyn clust i'w hadborth a bod gweithredu'n digwydd mewn ymateb iddo.

2.2 Nodweddion allweddol y dulliau o osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academiaidd

20 Mae gan y Brifysgol fframwaith cadarn ar gyfer gosod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academiaidd. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd cynhwysfawr yn disgrifio'r rheoliadau academiaidd a'r strwythurau sicrhau ansawdd, ymgynghori ac academiaidd sydd gan y Brifysgol ac, fel y cadarnhawyd mewn cyfarfodydd, mae'n darparu pwynt cyfeirio allweddol i'r staff ar gyfer gosod a chynnal safonau academiaidd. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wefan y Brifysgol a'r Hwb Myfyrwyr, ac mae'n cael ei ddiweddarau bob blwyddyn. Gyda'i Llawlyfr Ansawdd Academiaidd, mae'r Brifysgol wedi symud o sail prosesau i sail egwyddorion, er mwyn caniatáu rhywfaint o hyblygedd mewn dulliau ond gan sicrhau ar yr un pryd bod y canlyniadau'n gyson.

21 Mae strwythur pwyllgorau'r Brifysgol yn cefnogi goruchwyliaeth effeithiol o'r safonau. Mae gan y Senedd, fel yr uwch bwyllgor academiaidd, y cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau y cedwir safonau academiaidd, ac mae'n dirprwyo ei chyfrifoldeb am oruchwyllo safonau academiaidd i'r Pwyllgor Safonau Academiaidd. Mae cofnodion y Pwyllgor Safonau Academiaidd yn dangos ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n gydwybodol ac yn darparu adroddiadau rheolaidd ar i fyny i'r Senedd. Mae'r Senedd yn goruchwyllo'r ddarpariaeth gydweithredol (gwelwch adran 3) drwy'r Pwyllgor Safonau Academiaidd a'r Pwyllgor Materion Rhyngwladol a Phartneriaethau Cydweithredol (Pwyllgor MRhPC), sy'n rhannu'r cyfrifoldeb am fonitro safonau academiaidd ac ansawdd profiad y myfyrwyr sy'n astudio yn y partneriaid cydweithredol.

22 Mae Bwrdd y Coleg Doethurol, a sefydlwyd yn 2021 i gydlynu profiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ar draws y Brifysgol, yn ceisio sicrhau bod profiad a datblygiad y diwylliant ymchwil yn gymaradwy. Cadarnhaodd y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig hynny y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw bod amrywiaeth sylweddol mewn profiadau a dibyniaeth ar gysylltiadau cryf â thimau goruchwyllo, yn hytrach nag â'u hathrofeydd neu'r brifysgol ehangach. Ond, roeddent yn deall rôl y Coleg Doethurol newydd yn glir ac yn siarad yn gadarnhaol am y gefnogaeth y mae'n ei chynnig. **Felly, mae'r tîm adolygu'n cadarnhau'r gwaith y mae'r Coleg Doethurol yn ei wneud i sicrhau bod profiad y myfyrwyr yn gymaradwy ar draws yr amrywiaeth o gampysau a dulliau astudio.** Mae Bwrdd y Coleg Doethurol, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil, yn goruchwyllo'r amgylchedd ymchwil a datblygiadau a derbyniadau yn y maes hwn, er bod y Pwyllgor Graddau Ymchwil, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Safonau Academiaidd, yn cadw'r cyfrifoldeb fel sy'n briodol am safonau'r dyfarniadau ymchwil ôl-raddedig.

23 Mae gan y Brifysgol ystod o brosesau sy'n sicrhau bod safonau'n cael eu gosod a'u cynnal yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer y sector. Gosodir safonau'r rhaglenni yn ystod y prosesau o ddatblygu a chymeradwyo rhaglenni; mae'r Brifysgol wedi mireinio ei dulliau yn y maes hwn ers yr adolygiad blaenorol. Mae'r broses ddau gam yn cynnwys craffu ar gynigion am raglenni newydd ar y cychwyn ac wedyn ddilysu'r rhaglen. Mae'r broses ddilysu'n cynnwys un 'digwyddiad' yn unig, a gallai cyfarfod dilysu gael ei gynnal lle rhoddir ystyriaeth i risgiau posibl, er ei fod wedi ei seilio i raddau mawr ar y ddogfennaeth; rhaid cynnal cyfarfod o'r fath ar gyfer pob rhaglen gydweithredol. Mae cynghorwyr allanol yn craffu ar y ddogfennaeth ddilysu, a chanfu'r tîm adolygu fod y broses yn sicrhau bod y rhaglenni'n alinio ag ystod o bwyntiau cyfeirio allanol. Mae'r Pwyllgor Safonau Academiaidd yn gyfrifol am gymeradwyo rhaglenni'n derfynol.

24 Mae'r rheoliadau asesu, y prosesau a'r egwyddorion marcio sydd wedi eu disgrifio yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd yn sicrhau bod yr arferion asesu'n gadarn ac yn effeithiol, gan gynnwys yr arferion o safoni'r holl asesiadau sy'n cyfrannu at ddyfarniad terfynol. Mae arholwyr allanol yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o gynnal safonau ac mae eu rôl wedi ei disgrifio yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd a'r Protocol Arbenigedd Allanol. Mae'r Brifysgol yn defnyddio arholwyr allanol gweithdrefnol i sicrhau bod byrddau arholi'n gweithredu'r rheoliadau'n gyson, yn ogystal â defnyddio arholwyr allanol modiwl. Lle bo'n bosibl, penodir yr un arholwr allanol ar gyfer rhaglenni sydd â'r un teitl a chynnwys a addysgir ar draws gwahanol safleoedd

ac mae gofyn i'r arholwr hwn ddarparu adroddiad ar wahân ar gyfer pob partner o 2021 ymlaen. Mae arholwyr allanol yn rhoi sylwadau eglur am safonau'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae'r myfyrwyr yn eu dangos mewn perthynas â'r safonau cenedlaethol neu safonau cyrff proffesiynol, ac yn nodi a yw'r safonau hynny'n gymaradwy â'r rheiny mewn sefydliadau tebyg. Yn rhan o'r broses fonitro flynyddol, cynhyrchir adroddiadau trosolwg cynhwysfawr yr arholwyr allanol i'r Pwyllgor Safonau Academaidd a'r Senedd.

25 Mae'r broses Adolygiad Blynyddol Rhaglenni (ABRh) yn sicrhau bod y rhaglenni wedi eu llunio'n dda, bod mecanweithiau asesu effeithiol a systemau cymorth priodol yn eu lle, a bod ansawdd a safonau'n cael eu cynnal. Mae'r broses yn drwyadl ac yn gweithredu ar lefelau'r clystyrau o raglenni, y disgyblaethau academaidd a'r athrofeydd. Mae pob partner cydweithredol yn rhoi adroddiad trosolwg o'r bartneriaeth, gan ystyried nifer o feysydd eraill, megis cwynion. Yng nghyfarfod monitro blynyddol y Pwyllgor Safonau Academaidd ystyrir cysondeb yr ansawdd, safonau a chyflawniad ar draws y Brifysgol, ac mae hyn yn caniatáu i arferion da gael eu rhannu ac i broblemau sy'n effeithio ar y sefydliad cyfan gael eu canfod a'u datrys. Mae'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn monitro cynnydd y myfyrwyr ymchwil drwy gerrig milltir niferus. Mae hyn wedi ei ganolbwyntio'n arbennig yn eu blwyddyn gyntaf ac mae pob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig yn mynd trwy broses briodol o fonitro cynnydd hefyd, a hynny o leiaf unwaith y flwyddyn. I sicrhau goruchwyliaeth sefydliadol o safonau'r dyfarniadau ymchwil, mae cadeirydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Safonau Academaidd am gynnydd a chyflawniad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, yn rhan o'r broses fonitro flynyddol.

2.3 Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol mewn prosesau ansawdd

26 Mae'r Brifysgol yn defnyddio ystod o bwyntiau cyfeirio allanol perthnasol mewn prosesau ansawdd ac wrth ddatblygu polisiau. Mae polisiau, gweithdrefnau ac arferion yn ymwneud ag ansawdd wedi eu mapio'n gynhwysfawr yn erbyn Cod Ansawdd y DU, gan ddangos y ffordd, ac i ba raddau, y mae'r Brifysgol yn bodloni'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin yn ymwneud ag ansawdd a safonau, ac yn erbyn y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG), gan roi tystiolaeth i ddangos aliniad â nhw. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn nodi'r pwyntiau cyfeirio allweddol a defnyddir yn y broses o ddatblygu rhaglenni, sef y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG), Cod Ansawdd y DU, FfCChC/FHEQ, Datganiadau o Nodweddion Gradd a Datganiadau Meincnodi Pwnc, ynghyd â gofynion sy'n benodol berthnasol i raglenni sy'n arwain at ddyfarniadau Cenedlaethol Uwch Pearson, gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRB) sy'n berthnasol i nifer o raglenni'r Brifysgol sydd ag achrediad cyrff PSRB, gofynion Estyn, a'r fframweithiau a'r safonau ar gyfer prentisiaethau. Yn rhan o'r broses o ddilysu rhaglenni ceir gwiriad bod pob rhaglen yn alinio â'r pwyntiau cyfeirio hyn.

27 Defnyddir meincnodau'r sector yn rheolaidd i fonitro cyrhaeddiad a pherfformiad y Brifysgol, er enghraifft, yn rhan o'r broses ABRh ac mewn perthynas â dadansoddi data am arolygon, cadwraeth a'r graddau a gyflawnwyd. Mae elfennau o allanoldeb yn rhan annatod o ystod o brosesau allweddol yn ymwneud ag ansawdd, ac mae'r Protocol Arbenigedd Allanol yn nodi'n glir beth yw disgwyliadau'r Brifysgol mewn perthynas â defnyddio arholwyr allanol a chynghorwyr allanol yn y prosesau hyn. Mae gofyn i gynghorwyr allanol ysgrifennu adroddiad yn rhan o'r broses gymeradwyo rhaglenni, maent yn cael eu penodi i gyfarfod monitro blynyddol y Pwyllgor Safonau Academaidd, maent yn eistedd ar fyrddau cymeradwyo ac adolygu partneriaethau, ac maent yn cymryd rhan yn y Bwrdd Achredu a Chydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiad a byrddau sy'n delio â chamymddwyn academaidd ac addasrwydd i ymarfer.

28 Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd priodol o arholwyr allanol ar gyfer ei holl ddyfarniadau a addysgir a'i holl ddyfarniadau ymchwil (gwelwch adran 2.2). Cymeradwyir enwebiadau i swyddi arholwyr allanol ar gyfer dyfarniadau a addysgir gan y Pwyllgor Safonau Academaidd, a gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil ar gyfer graddau ymchwil. Disgrifir manylion cyfrifoldebau'r arholwyr allanol ar gyfer dyfarniadau a addysgir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, ac yn y Cod Ymarfer (Graddau Ymchwil) ar gyfer dyfarniadau ymchwil. Mae timau'r rhaglenni'n

ymateb i sylwadau'r arholwyr allanol, ac, yn rhan o'r broses fonitro flynyddol, paratoir dau adroddiad trosolwg blynyddol o adroddiadau arholwyr allanol, un ar gyfer y sefydliad ei hun ac un ar gyfer ei bartneriaid. Mae prosesau priodol yn eu lle i alluogi i arholwyr allanol dynnu sylw at bryderon difrifol (gwelwch adran 2.7).

2.4 Sylwadau ar y camau a gymerwyd ers yr adolygiad blaenorol a phennu materion sy'n codi o'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw nad ydynt yn cael eu harchwilio fel arall

29 Fel y nodwyd yn Adran 1.4, mae'r Brifysgol wedi cymryd camau gweithredu priodol mewn ymateb i adolygiadau blaenorol yn cynnwys yr Adolygiad Addysg Uwch yn 2015 a'r adolygiad rhannol o'i champws Birmingham yn 2019.

30 Adolygir algorithm gradd y Brifysgol bob pum mlynedd fel arfer, yn unol â gofynion CCAUC, ond cafodd ei adolygu ddiwethaf yn 2015-16. Yn dilyn cyhoeddi datganiad o fwrriad y Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU (UKSCQA) yn 2019 a chanllawiau Prifysgolion y DU am algorithmau gradd, sefydlodd y Brifysgol weithgor yn 2021-22, a gafodd ei ohirio ychydig bach oherwydd y pandemig, i ymgynghori ar yr algorithmau gradd a ddefnyddir drwy'r Brifysgol gyfan, cynnig unrhyw newidiadau gofynnol a chynhyrchu cynllun gweithredu. Disgwylir i'r grŵp hwn wneud argymhellion i'r Senedd am unrhyw newidiadau i'r algorithm presennol erbyn mis Mehefin 2022, ac mae ar y trywydd cywir i gyflawni hynny.

31 Mewn ymateb i'r pandemig, ac yn dilyn y cyfyngiadau clo ym mis Mawrth 2020, mae'r Brifysgol wedi adolygu ei rheoliadau ar gyfer dyfarnu graddau yn rhan o'i dull o roi cefnogaeth wrth gefn i'w myfyrwyr a sicrhau nad oes unrhyw anfantais iddyn nhw. Arweiniwyd y gwaith o wneud newidiadau i reoliadau gan y Swyddfa Academaidd, y Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd), y Deoniaid Cynorthwyol (Ansawdd) ac Undeb y Myfyrwyr, a chymeradwywyd pob newid gan y Pwyllgor Safonau Academaidd a'r Senedd. Ar ôl ymgynghori â'r staff a'r myfyrwyr, penderfynwyd hyn: os nad oedd y Brifysgol yn gallu darparu elfennau o raglenni neu lle nad oedd myfyrwyr yn gallu cwblhau eu gwaith o ganlyniad i amgylchiadau esgusodol a gydnabyddir, byddai'r algorithm gradd presennol yn cael ei addasu ar sail rheoliadau'r Brifysgol ar gyfer dyfarnu credydau gan ystyried y gwaith a gollwyd.

32 Ym mis Ionawr 2021, pan ohiriwyd y rhan fwyaf o'r addysgu ar y campws yng Nghymru, aeth y Brifysgol ati i adolygu ei rheoliadau unwaith eto a gweithredu rheoliadau wrth gefn newydd oedd yn gofyn bod y myfyrwyr yn cwblhau pob un o'u hasesiadau ond yn ystyried cyfanswm is o gredydau o fewn yr algorithm gradd. Mewn perthynas â'r addasiadau i reoliadau a wnaed yn 2020 ac yn 2021, mae'r Brifysgol wedi cysylltu â'r cyrff PSRB perthnasol i sicrhau bod y newidiadau'n bodloni eu gofynion, ac mewn achosion lle nad ystyriwyd y newidiadau'n briodol, cafodd y rheoliadau wrth gefn eu haddasu, neu ni chawsent eu defnyddio. Hefyd, aeth y Brifysgol ati i symud i ddulliau addysgu ac asesu ar-lein, gwneud newidiadau i reoliadau yn ymwneud ag amgylchiadau esgusodol a lleoliadau gwaith, a rhoi cefnogaeth ychwanegol i'w phartneriaid drwy ei Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol. Ni chafodd rheoliadau graddau ymchwil eu newid yn ystod y pandemig, er yn 2020 rhoddwyd chwe mis atodol i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig oedd ar fin cwblhau, a chynhaliwyd arholiadau ar lafar ar-lein; ni ataliwyd myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig chwaith rhag gwneud cais am estyniadau yn y ffordd arferol.

33 Rhoddwyd gwybod i'r staff am y newidiadau drwy gyfres o weminarau; aeth y Swyddfa Academaidd a'r Brifysgol ati hefyd i gynhyrchu cyfres o fideos defnyddiol i esbonio'r newidiadau a wnaed i'r myfyrwyr. Mae'r Brifysgol hefyd wedi rhoi gwybod i'w harholwyr allanol am y newidiadau. Dywedodd y myfyrwyr eu bod yn gyffredinol fodlon â'r gefnogaeth a roddwyd iddynt mewn ymateb i'r pandemig.

34 Rhwng blynyddoedd academaidd 2014-15 a 2019-20, cynyddodd y canran o raddau anrhydedd 'da' a gyflawnwyd yn y Brifysgol o 50.2% i 75%, a hynny ar y cychwyn o ganlyniad

i newidiadau a wnaed i'r algorithm. Yn 2019-20, o ganlyniad i'r rheoliadau wrth gefn, cynyddodd y canran o raddau anrhydedd da 1%, o 74% yn 2018-19 i 75%, o'i gymharu â chynnydd o 5% yn sector addysg uwch cyfan y DU, a 6% yn y sector yng Nghymru. Yn 2020-21 roedd cynnydd uwch, sef 83%, yn y canran o raddau anrhydedd da a gafwyd o ganlyniad i'r dull diwygiedig, er bod y canran hwn, ar y cyfan, yn cyfateb â chyfartaledd y sector (sef 83% hefyd). Mewn trafodaeth â'r tîm adolygu am y canlyniadau hyn, dywedodd y Brifysgol ei bod wedi gweld cynnydd yn y nifer o fyfyrwyr hŷn, a bod eu perfformiad yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd yn y sector mewn perthynas â'r graddau a gyflawnwyd, ei bod yn gyffredinol fodlon bod y camau lliniaru a gymerwyd mewn ymateb i'r pandemig yn briodol a bod y canlyniadau wedi parhau'n gyfatebol â'r rhai yn y sector. Hefyd, cadarnhaodd y Brifysgol ei bod, ac y bydd, yn parhau i fonitro effaith y newidiadau a wnaed, a byddai'r tîm adolygu'n annog y Brifysgol i wneud hynny.

2.5 Y dull o ddefnyddio data i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso

35 O ganlyniad i'r uniadau a wnaed yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol, mae'r Brifysgol wedi adolygu ei strwythurau data ac wedi uno dwy system cofnodion myfyrwyr wahanol. Mae'r gwaith hwn wedi ei gwblhau erbyn hyn, ac mae'r Brifysgol wedi cychwyn ar raglen strategol o ymwreiddio data a data wedi'i ddadansoddi mewn prosesau a threfnau penderfynu drwy'r Brifysgol gyfan. Sefydlwyd grŵp rheoli data gydag adrannau niferus yn aelodau - yn cynnwys Systemau a Thechnoleg Gwybodaeth, y Swyddfa Academaidd, y Gofrestrfa, Marchnata, ac Adnoddau Dynol - i oruchwylio'r defnydd a wneir o ddata ar lefel strategol ac i ddatblygu, darparu a gwella'r dulliau o gyfathrebu data ar draws y sefydliad cyfan. Sefydlwyd gweithgor hefyd ar ddata'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Mae'r ddau gorff hyn wedi dod â gwelliannau cyson i ansawdd y data, y dulliau o gyflwyno data ac, o ganlyniad i hynny, y defnydd a wneir o ddata i sicrhau a gwella ansawdd.

36 Gwelodd y tîm adolygu ddangosiad o'r dangosfyrddau data newydd sy'n rhoi mwy o gyfle i'r Brifysgol, yr athrofeydd a thimau'r rhaglenni gael gafael ar ddata, ac sy'n ei gwneud yn fwy ymarferol iddyn nhw holi'r data a monitro ansawdd yn unol ag uchelgeisiau Strategaeth Digidol 2021-23. Mae'r dangosfyrddau data'n galluogi i dimau'r rhaglenni ystyried materion megis perfformiad myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig neu dariffau mynediad, ac i'r athrofeydd werthuso perfformiad yn hawdd ar draws eu portffolios. Mae'r data'n galluogi i'r Brifysgol fonitro cadwraeth, cynnydd, cyrhaeddiad a chanlyniadau ar draws ei hathrofeydd a'i rhaglenni. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth i ddangos bod y data a ddarperir drwy'r dangosfyrddau, yr adroddiadau trosolwg a'r prosesau o fonitro perfformiad dros amser, yn cael eu defnyddio i ysgogi datblygiadau strategol. Dywedodd y staff academaidd eu bod yn ymddiried yn y data a gyflwynir drwy'r dangosfyrddau mewn ffordd nad oeddent yn y gorffennol. Mae hyn wedi gwella'r prosesau penderfynu ar bob lefel yn y broses sicrhau ansawdd.

37 **Felly, mae'r tîm adolygu'n canmol y Brifysgol am y dangosfwrdd data sy'n darparu amrywiaeth eang o ddata cywir, defnyddiol a hygyrch i'r staff, ac sy'n galluogi i'r Brifysgol fonitro ei pherfformiad yn gynhwysfawr ac yn effeithiol mewn perthynas â safonau ei dyfarniadau ac ansawdd profiad dysgu ei myfyrwyr.** Y cam nesaf i'r Brifysgol yw dod â'r un buddion i'r broses o oruchwylio a gwella graddau ymchwil. Mae'r ffaith bod y dangosfyrddau data yn 'fyw' wedi rhoi mwy o hyder i bobl bod y data'n ddilys. Maent yn galluogi i'r athrofeydd a'u timau rhaglen ganfod problemau a allai effeithio'n negyddol ar yr ansawdd, a hynny wrth iddynt godi.

38 Sicrhawyd y tîm adolygu bod y dangosfyrddau data'n cael eu defnyddio i wella'r dysgu a'r addysgu ac i sicrhau ansawdd. Mae adborth y myfyrwyr a'r dymuniad strategol i wella'r cyfathrebu gyda nhw wedi hysbysu datblygiad yr Hwb Myfyrwyr a symudiad tuag at adborth parhaus yn hytrach na chyfnodau adborth gosodedig. Mae'r newid hwn yn cyfateb â gwelliant yn sgorau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) ynglŷn ag adborth. Mae'r Brifysgol wedi cyflymu ei gwaith o ddatblygu cwricwlwm sy'n ateb anghenion cyflogwyr mewn ymateb i'r ffaith fod canran isel o'i myfyrwyr yn mynd i swyddi proffesiynol sgiliau uchel ar ôl graddio.

2.6 Effeithiolrwydd y defnydd a wneir o'r dulliau sicrhau ansawdd i wella a chyfoethogi'r dysgu a'r addysgu

39 Mae'r Brifysgol yn asesu pa mor effeithiol yw ei dulliau o wella'r dysgu a'r addysgu drwy ddefnyddio data meintiol ac ansoddol, yn cynnwys adborth gan randdeiliaid mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor Safonau Academaidd a'r Pwyllgor Profiad Myfyrwyr yn adolygu ac yn myfyrio ar y data, ac mae gweithgorau cysylltiedig yn arwain y gwaith o ddatblygu mentrau i wella ansawdd a chyfoethogi'r dysgu a'r addysgu.

40 Yn 2019-20, crëwyd yr Hwb Myfyrwyr fel pwynt cyswllt canolog i'r myfyrwyr. Cafodd datblygiad yr Hwb ei gefnogi gan grwpiau ffocws myfyrwyr ac arweiniodd hynny at welliannau parhaus yn ei nodweddion. Roedd hi'n amlwg i'r tîm adolygu bod y myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r Hwb fel porth effeithiol a chroesawgar i'r Brifysgol. Yn ystod y pandemig COVID-19, defnyddiwyd yr Hwb i gydlynu'r cyfathrebu â'r myfyrwyr am newidiadau rheoliadol mewn ymateb i'r pandemig, gan ddefnyddio fideos a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr.

Mae'r tîm adolygu'n canmol y Brifysgol am ei Hwb Myfyrwyr sy'n darparu pwynt cyswllt a gwybodaeth electronig i'r myfyrwyr sy'n hygyrch ac yn gynhwysfawr, ac mae hyn yn cefnogi eu profiad dysgu'n effeithiol.

41 Clywodd y tîm adolygu bod pecynnau hyfforddi ar-lein NEXUS i'r staff wedi bod yn arbennig o fuddiol ac wedi gadael i'r staff i gyd ar draws yr holl gampysau elwa o dderbyn hyfforddiant a mynd i seminarau, gan gynyddu'r nifer sy'n mynychu'n sylweddol.

42 Mae'r Fframwaith Digidol 'Dysgu Cyfunol' yn amlinellu pwyslais parhaus y Brifysgol ar ddulliau dysgu hybrid a hyblyg. Yn cefnogi'r ethos 'Pobl yn gyntaf, technoleg yn dilyn' mae cyfres o Safonau Dysgu ac Addysgu Digidol. Yn 2020, sefydlodd y Brifysgol y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Digidol. I gefnogi dysgu cyfunol, sefydlwyd dwy uned newydd yn yr adran Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu. Mae'r Uned Dysgu a Chreadigrwydd Digidol wedi cefnogi'r staff i ddarparu addysgu ar-lein sydd wedi ei hysbysu gan addysgeg, ac mae'r Tîm Sgiliau Digidol yn rhoi gwell cefnogaeth i'r myfyrwyr i ymgysylltu â'r dulliau addysgu newydd hyn.

Mae'r tîm adolygu'n canmol y Brifysgol am yr amrywiaeth eang o ddulliau digidol o hyfforddi, addysgu a chefnogi, a ddatblygwyd yn ystod y pandemig, a'r defnydd effeithiol a wneir ohonynt, sy'n parhau i gyfoethogi profiad y staff a'r myfyrwyr.

43 Mae'r Brifysgol yn nodi mai ei fframwaith datblygu staff, ei fframwaith arholwyr allanol a'i phrosesau monitro blynyddol yw'r systemau allweddol ar lefel y sefydliad ar gyfer cynnal safonau. Cadarnhaodd y staff mewn cyfarfodydd gyda'r tîm adolygu eu bod yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn prosesau datblygu rhaglenni a monitro blynyddol a siaradodd yn gadarnhaol iawn am Fframwaith Dysgu ac Addysgu NEXUS, Cynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol NEXUS Plus a'r cymorth iaith Gymraeg. Mae'r Brifysgol yn cynnig pedwar llwybr achrededig tuag at statws yr Academi Addysg Uwch (AAU), sydd ar fin cael ei ailachredu ar hyn o bryd; er bod hyn yn dal i fod yn weddol isel o'i gymharu â'r sector; mae'r nifer o aelodau staff sy'n Gymrodorion yr AAU wedi cynyddu o 19% yn 2015-16 i 34% yn 2020-21, a bwriedir cyrraedd targed o 55% erbyn 2025-26. Yn ei drafodaethau gyda'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a'r staff, cadarnhaodd y tîm adolygu nad oedd unrhyw gynllun hyfforddi ffurfiol yn bodoli ar y pryd i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n gwneud neu'n cefnogi gwaith addysgu, er bod y Brifysgol yn bwriadu ailsefydlu ei chynllun Cynorthwydd Addysgu Uwchraddedig a'r hyfforddiant cysylltiedig yn 2022-23. Er bod y Brifysgol wedi mynegi'r farn nad oedd unrhyw fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn gwneud gwaith addysgu'n rheolaidd ar y pryd, ond bod modd iddynt roi darlithoedd gwadd gyda chymorth eu goruchwylwyr, disgrifiodd y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig eu gwaith yn rhoi darlithoedd gwadd ac yn darparu elfennau o'r cwricwlwm i fyfyrwyr a addysgir. **Mae'r tîm adolygu'n argymhell bod y Brifysgol yn datblygu system gadarn sy'n sicrhau bod pob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig sy'n gwneud neu'n cefnogi gwaith addysgu, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn derbyn hyfforddiant priodol.**

2.7 Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd

44 Mae gan y Brifysgol drefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau safonau academaidd. Gosodir safonau drwy brosesau cadarn o ddilysu ac ail-ddilysu rhaglenni, ac mae adroddiad trosolwg blynyddol o ddilysiadau'n ystyried effeithiolrwydd y prosesau hyn. Mae'r broses Adolygiad Blynyddol Rhaglenni (ABRh) yn rhoi trosolwg o'r perfformiad academaidd ac yn meincnodi'r gwaith yn erbyn safonau ar draws y Brifysgol; mae cyfarfod monitro blynyddol y Pwyllgor Safonau Academaidd yn ystyried pa mor effeithiol yw'r broses ac mae'n gwneud argymhellion ynglŷn â ffyrdd o'i gwella. Mae mecanweithiau priodol hefyd yn eu lle ar gyfer sicrhau a monitro safonau graddau ymchwil y Brifysgol. Ers yr adolygiad blaenorol, cafwyd gwelliant sylweddol yn hygyrchedd ac ansawdd y data a ddefnyddir yn y mecanweithiau hyn, a'r prosesau monitro ac adolygu eraill.

45 Mae arholwyr allanol yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o oruchwylio safonau (gwelwch adran 2.2), ac mae cyfle iddyn nhw godi pryderon brys drwy eu hadroddiadau, os bydd angen. Ymddrinnir â'r pryderon gan y gweithiwr dynodedig sydd yn y rôl berthnasol, ac mae hyn yn amrywio yn dibynnu ar natur y pryder a godir. Hefyd, gall yr arholwyr allanol godi pryderon yn uniongyrchol â'r Is-Ganghellor. Mae materion a godir gan arholwyr allanol yn cael eu monitro drwy'r adroddiadau trosolwg blynyddol o adroddiadau arholwyr allanol a baratoir gan Bennaeth y Swyddfa Academaidd. Mae Dangosfwrdd Arholwyr Allanol newydd y Brifysgol, sy'n cael ei dreialu yn 2021-22, yn helpu i ganfod unrhyw broblemau difrifol y tynnir sylw atynt yn adroddiadau'r arholwyr allanol am fodiwlau, a bydd hefyd yn cefnogi goruchwyliaeth ganolog o themâu sy'n codi o'r adroddiadau hyn.

46 Mae'r Brifysgol yn cynhyrchu nifer o adroddiadau blynyddol i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiad blynyddol cynhwysfawr y Senedd a ddatblygir ar sail nifer o adroddiadau trosolwg blynyddol sy'n rhoi dadansoddiadau ac argymhellion am feysydd penodol, megis dilysiadau, arholiadau a byrddau arholi, arholwyr allanol, graddau ymchwil, achosion myfyrwyr, arolygon a thablau cynghrair, y graddau a gyflawnwyd, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a chadwraeth. Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Senedd, yn cynnwys ei hadroddiad blynyddol.

2.8 Effeithiolrwydd dull y darparwr o'i werthuso ei hun, sy'n cynnwys defnyddio data'n effeithiol i hysbysu'r prosesau gwneud penderfyniadau

47 Yn dilyn yr uniadau a wnaed cyn y cyfnod adolygu presennol, aeth y Brifysgol ati i ganolbwyntio ar sicrhau bod y prosesau a'r arferion yn gyson. Wrth i gysondeb ddod yn greiddiol, mae'r Brifysgol wedi symud at ddull hunanwerthuso lle mae prosesau a gweithdrefnau'n cael eu harchwilio i weld a ydyn nhw'n effeithiol ac yn cynrychioli arfer gorau. Gallai'r tîm adolygu weld tystiolaeth bod hunanwerthuso'n digwydd drwy bartneriaeth. Er enghraifft, o ganlyniad i ddatblygu Gweithgor y Llawlyfr Ansawdd Academaidd i adolygu'r fframwaith rheoleiddio'n gyfannol mewn cydweithrediad ag Undeb y Myfyrwyr, ail-luniwyd dull y Brifysgol o ddefnyddio'r Hwb i ymgysylltu â'i myfyrwyr a chyfathrebu'n effeithiol â nhw am newidiadau rheoliadol.

48 Roedd hi'n amlwg bod datblygiad y dangosfyrddau data wedi gwella gallu timau'r rhaglenni, yr athrofeydd a'r Brifysgol i asesu pa mor effeithiol yw'r arferion cyfredol. Trionglir y defnydd a wneir o ddata ag adborth ansoddol gan y myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol i ddatblygu mentrau i wella ansawdd a monitro'r effaith a geir. Er enghraifft, o ganlyniad i ddatblygu ymgyrch i helpu'r myfyrwyr i ddeall beth yw camymddwyn academaidd a sut i'w osgoi, cyd-gynhyrchwyd fideo dan y teitl 'DON'T DO IT'.

49 Mae cyflogadwyedd y myfyrwyr mewn swyddi proffesiynol sgiliau uchel yn parhau i fod yn un o'r metrigau lle mae'r Brifysgol yn perfformio'n is na meincnod y sector. Ond, yn wahanol i feysydd perfformiad allweddol eraill megis cadwraeth, ni welwyd tystiolaeth i ddangos bod dull strategol clir o wella canlyniadau'r myfyrwyr yn bodoli. Ni dderbyniodd y tîm adolygu sicrwydd bod

gan y Brifysgol ddull strategol clir o wella canlyniadau'r graddedigion. **O ganlyniad, mae'r tîm adolygu'n argymhell bod y Brifysgol yn datblygu dull strategol cydlynol o wella canlyniadau pob rhaglen o ran cyflogadwyedd mewn swyddi proffesiynol sydd angen lefel uchel o sgiliau.**

3 Darpariaeth gydweithredol

3.1 Nodweddion allweddol dull strategol y darparwr (yn cynnwys gweithgareddau cydweithredol, dysgu ar-lein a dysgu o bell a ddarperir gydag eraill, a dysgu seiliedig ar waith)

50 Mae Cynllun Strategol 2017-22 y Brifysgol yn nodi blaenoriaethau clir mewn perthynas â darpariaeth gydweithredol, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddiaeth fyd-eang, partneriaethau rhyngwladol a chydweithrediad â sefydliadau addysg bellach a chyflogwyr. Rhoddodd y Brifysgol wybod i'r tîm ei bod, wrth lunio ei chynllun strategol nesaf, yn bwriadu parhau i dyfu a datblygu ei phartneriaethau cydweithredol, gyda ffocws arbennig ar ei hymateb i amcan strategol Llywodraeth Cymru i integreiddio addysg drydyddol yn well. Mae hefyd yn bwriadu cynnwys ffocws ar ddatblygu cysylltiadau agosach â'i phartneriaid presennol, yn hytrach na thwf sylweddol mewn partneriaethau newydd. Mae'r Brifysgol yn ystyried bod cydweithrediad parhaus rhwng Grŵp Sector Deuol PCYDDS yn allweddol i'w bwriad i gefnogi amcan y Llywodraeth i ddatblygu integreiddiad o'r fath. Yn arbennig, mae'r Brifysgol yn ystyried bod y bartneriaeth hon yn elfen ganolog yn y broses o sefydlu llwybrau cynnydd i brentisiaid sy'n astudio ar lefelau 2 a 3.

51 Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo ei Strategaeth Addysg Fyd-eang 2022-27 sy'n nodi ei dull rhyngwladoli strategol. Ymysg y blaenoriaethau strategol sydd wedi eu nodi yn y cynllun mae cynyddu nifer ei phartneriaethau rhyngwladol a nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio cyrsiau dramor, amlygrwydd byd-eang cynyddol i PCYDDS mewn marchnadoedd rhyngwladol a gwella profiad y myfyrwyr rhyngwladol. Mae rhan o'r strategaeth hon wedi peri esblygiad a gweddnewidiad y Wales Global Academy (WGA), a ddechreuodd fel cydweithrediad rhwng Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, i mewn i brif strwythur PCYDDS er mwyn cymryd y gorau o addysg uwch Cymru allan i'r byd a dod â'r gorau o'r tu allan i mewn i Gymru. Mae'r Pwyllgor Materion Rhyngwladol a Phartneriaethau Cydweithredol (Pwyllgor MRhPC) yn goruchwyllo'r strategaeth hon, ac mae gan bob amcan strategol gynllun gweithredu. Hefyd, mae'r Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Ymgysylltiad Rhyngwladol) yn cyfarfod â Deoniaid Cynorthwyol i drafod blaenoriaethau rhyngwladol strategol a materion gweithredol yn ymwneud â'r ddarpariaeth.

52 Er mwyn darparu cefnogaeth briodol i gyflawni ei hamcanion strategol ar gyfer darpariaeth gydweithredol, mae'r Brifysgol wedi sefydlu dwy uned ganolog - yr Uned Prentisiaethau yn 2017 a'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol yn 2018. Crëwyd ystod eang o brentisiaethau ers sefydlu'r Uned Prentisiaethau, sy'n cynnwys Plismona Proffesiynol; Rheolaeth Adnoddau Dynol; Ordnans, Arfau Rhyfel a Ffrwydron; Syrfeo Meintiau; Rheolaeth Adeiladu; Peirianeg; Gweithgynhyrchu Uwch; Cyfrifiadureg; ac Archeoleg.

53 Mae'r strwythurau i reoli partneriaethau cydweithredol yn amrywio ychydig bach ar draws y sefydliadau. Mae athrofeydd sydd â nifer sylweddol o bartneriaethau'n cyflogi Deon Cynorthwyol (Partneriaethau Rhyngwladol a Domestig) - sy'n gyfatebol â rôl y Deon Cynorthwyol (Ansawdd) - ar gyfer darpariaeth PCYDDS. Pan mae'r amrywiaeth o bartneriaethau'n llai, mae Deon Cynorthwyol a gyflogir yn barod ac sydd â phrif bortffolio, yn goruchwyllo'r ddarpariaeth gydweithredol. Mae amrywiaeth bach arall yn rheolaeth y ddarpariaeth gydweithredol sy'n ymwneud ag Arweinwyr Timau Partneriaeth (Arweinwyr TP) a benodir i weithredu fel prif bwynt cysylltu ar gyfer pob rhaglen bartneriaeth. Os oes clwstwr o raglenni'n bodoli, penodir Arweinwyr Timau Partneriaeth (Arweinwyr Gweithredol TP), ac mae Arweinwyr TP asesu yn adrodd iddyn nhw. Cadarnheir penodiadau i swyddi Arweinwyr TP gan y Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol sydd hefyd yn penderfynu ar fformat a lefel yr adrodd y mae'n rhaid iddynt ei gyflawni ar gyfer y bartneriaeth. Diweddarwyd disgrifiadau rôl a chyfrifoldebau'r Arweinwyr TP a'r Arweinwyr Gweithredol TP yn ystod 2020-21 a chynhaliwyd hyfforddiant diweddarau ym mis Hydref 2021.

54 Er bod y tîm wedi canfod bod strwythur rheoli'r Brifysgol ar gyfer darpariaeth gydweithredol yn weddol gymhleth, penderfynodd bod hyn yn adlewyrchu lled, dyfnder a modelau amrywiol y ddarpariaeth gydweithredol ar draws y sefydliad. Canfu'r tîm hefyd fod gan

y staff ddealltwriaeth fanwl o'r strwythurau perthnasol, ynghyd â'u rolau eu hunain a rolau eu cydweithwyr mewn perthynas â rheoli darpariaeth gydweithredol. Cefnogir y ddealltwriaeth hon gan Lawlyfr Ansawdd Academaidd cynhwysfawr sy'n ymwneud â darpariaeth gydweithredol, gweithgareddau dysgu seiliedig ar waith (gan gynnwys lleoliadau gwaith) a symudedd rhwngwladol. Rhoddodd y Brifysgol wybod i'r tîm bod datblygiad sylweddol wedi digwydd ym Mhenodau 10 (Cyrsiau Byr, Fframwaith Arfer Proffesiynol, Partneriaid Cyfraniadol ac Achredu) ac 11 (Gweithio gydag Eraill) i adlewyrchu maint a natur newidiol y ddarpariaeth yn y meysydd hynny. Soniodd y Brifysgol am waith pellach i sicrhau mwy o gysondeb yn yr oruchwyliaeth a'r rheolaeth ar ddarpariaeth gydweithredol, yn cynnwys datblygiad cylchoedd gwaith Gweithgorau Partneriaeth yr athrofeydd, aelodaeth y Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol yn y grwpiau hyn a gwaith a wneir mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr i sefydlu strwythurau ymgysylltiad myfyrwyr effeithiol sy'n adlewyrchu amrywiaeth llawn y ddarpariaeth.

3.2 Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol ac unrhyw gynlluniau i'w newid

55 Ar adeg yr adolygiad, roedd 5,153 o fyfyrwyr y Brifysgol yn astudio mewn sefydliadau partner cydweithredol. Mae'r Brifysgol hefyd wedi gweld cynnydd sylweddol yn y categori 'cyrsiau israddedig eraill', gyda nifer y myfyrwyr yn cynyddu o 3,996 yn 2016-17 i 8,075 yn 2020-21. Mae'r cyrsiau hyn yn canolbwyntio'n arbennig ar ddatblygu sgiliau neu ddatblygiad proffesiynol. Ym mis Hydref 2018, dechreuodd y Brifysgol ddarparu Prentisiaethau Gradd i 102 o brentisiaid ar wyth rhaglen. Ers hynny, mae'r ddarpariaeth wedi tyfu ac, ar adeg yr adolygiad cafwyd fwy na mil o brentisiaid ar draws yr holl ddarpariaeth prentisiaethau PCYDDS, gydag oddeutu 30% ohonynt yn dilyn y Fframweithiau Prentisiaeth Gradd a ariennir gan Lywodraeth Cymru mewn Sgiliau Digidol ac mewn Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch.

56 Mae gan y Brifysgol ystod eang o drefniadau ffurfiol er mwyn cefnogi cydweithrediad â chyflogwyr a'r byd diwydiant; yn ogystal â Phrentisiaethau Gradd, mae'r sefydliadau'n defnyddio lleoliadau gwaith, rhaglenni achrededig a'r Fframwaith Arferion Proffesiynol, yn ogystal â gweithredu Canolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru (CWIC), yr Academi Golau Glas (AGL), Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa (PDPA) ac Academi Cymru ar gyfer Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol (ACAPYC). Dywedodd y Brifysgol wrth y tîm bod pob un o'r mentrau hyn wedi datblygu o'r cysylltiadau agos rhwng y Brifysgol a'r llywodraethau, polisïau rhanbarthol, a chydweithrediad â'r byd diwydiant.

57 Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu rhaglenni drwy drefniant y mae'n ei galw'n 'Partneriaeth Gyfraniadol'. Dyma'r enw a ddefnyddir am gysylltiadau lle mae partïon eraill yn gyfrifol am ddarparu rhai agweddau o ddarpariaeth a ddilysir. Mae'r rhain yn atebol i gytundebau ffurfiol, a gwelodd y tîm enghreifftiau o'r rhain.

58 Yn ystod 2020-21, gwnaeth y Brifysgol adolygiad o'i phartneriaethau a dderbyniodd ystyriaeth gan y Senedd, a chanlyniad hyn yw bod pedair partneriaeth yn cael eu cau ar hyn o bryd. Pan fydd y Brifysgol yn penderfynu tynnu allan o bartneriaeth, mae Memorandwm Cytundeb Ymadael yn cael ei ddrafftio a'i lofnodi ac mae hwn yn mynd i'r afael â chofrestriad y carfannau nesaf o fyfyrwyr, diogelu data, dyfarnu graddau i fyfyrwyr a chyflawni ymrwymadau ariannol.

59 Mae gan y Brifysgol bartneriaeth â Phrifysgol Ryngwladol Malaya-Cymru (IUMW), sef menter ar y cyd rhwng Prifysgol Cymru a Phrifysgol Malaya. Cynlluniwyd y bartneriaeth i ddarparu nifer o ddyfarniadau dwbl na fyddent yn debygol o barhau i gael eu darparu yn ôl yr hyn a ddywedodd y Brifysgol wrth y tîm, oherwydd newidiadau mewnol parhaus yn IUMW ac yn y sector addysg uwch ym Malaysia. Fodd bynnag, dywedodd y Brifysgol wrth y tîm yn ystod yr ymweliad adolygu bod rhagor o newidiadau wedi digwydd i bolisiau ym Malaysia a

allai olygu erbyn hyn bod darpariaeth y rhaglenni yma'n gallu parhau. Hefyd, mae'r Brifysgol wrthi'n archwilio cyfleoedd tebyg i ddarparu rhaglenni yn Tsieina.

3.3 Effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella a chyfoethogi profiad dysgu'r myfyrwyr

60 Mae'r strwythur llywodraethu ar gyfer rheoli darpariaeth gydweithredol yn briodol ac yn effeithiol. Mae'r Senedd yn goruchwyllo ansawdd a safonau'r ddarpariaeth gydweithredol drwy'r Pwyllgor Safonau Academaidd a'r Pwyllgor Materion Rhyngwladol a Phartneriaethau Cydweithredol (Pwyllgor MRhPC). Mae'r Fframwaith Gweithdrefnol ar gyfer Darpariaeth Gydweithredol yn sail ar gyfer y dull hwn. Mae'r Pwyllgor Safonau Academaidd yn gyfrifol am oruchwyllo'r prosesau o ddilysu, monitro ac adolygu rhaglenni cydweithredol. Mae'r Pwyllgor MRhPC yn gyfrifol am ddatblygu'r Strategaeth Addysg Fyd-eang, sefydlu memoranda cytundeb priodol, sicrhau cydymffurfiaid â gofynion Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI), a gwneud argymhellion yn ymwneud â therfynu partneriaethau. Er mwyn helpu gyda'r gwaith hwn, mae'r Grŵp Goruchwyllo Partneriaethau'n cyfarfod bob chwarter, gan roi adroddiad i'r Pwyllgor MRhPC. Defnyddir Gweithgorau Partneriaeth yn effeithiol yn yr athrofeydd i sicrhau bod darpariaeth gydweithredol yn cael ei gweithredu yn unol â'r gofynion sefydliadol. Mae'r gweithgorau hyn yn gweithredu fel fforymau i Arweinwyr TP lle gallant ryngweithio ag uwch reolwyr yr athrofeydd a staff y Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol.

61 Mae'r Swyddfa Partneriaethau Cydweithredol yn ganolog i'r cysylltu â'r sefydliadau partner, gan gynnwys y cysylltu ar gyfer darpariaeth ryngwladol, er mwyn sicrhau gweithrediad y Fframwaith Partneriaethau Cydweithredol. Mae hyn yn cynnwys gwaith i sicrhau y glynir at y prosesau cymeradwyo, dilysu, monitro ac adolygu ar draws y rhwydwaith o bartneriaid. I gael cymeradwyaeth rhaid rhoi ystyriaeth gychwynnol i'r achos busnes a chwblhau'r Ddogfen Proffil Sefydliadol a ystyrir, ochr yn ochr â chanlyniadau'r broses diwydrwydd dyladwy a weithredir, gan y Grŵp Sefydlog Diwydrwydd Dyladwy ac a gymeradwyir gan y Tîm Cynllunio Academaidd. Yna, ceir ymweliad cymeradwyo â'r darparartner er mwyn derbyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Safonau Academaidd. Gofynnir i bob partner gyflwyno Adroddiadau Monitro Rhaglenni Blynyddol. Mae'n rhaid i athrofeydd gadarnhau, drwy gyflwyno adroddiad templed, bod prosesau ABRh y partneriaid wedi eu cwblhau. Mae'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol yn cynhyrchu adroddiad blynyddol am effeithiolrwydd y broses ABRh i'r partneriaid. Mae'r partneriaethau'n cael eu hadolygu'n ffurfiol drwy wneud Adolygiadau Cyfnodol ac Interim o Bartneriaethau.

62 Mae gwe-dudalennau'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol yn darparu ystod eang o wybodaeth berthnasol i bartneriaid a staff PCYDDS sy'n cynnwys llawlyfrau gweithrediaid a chanllawiau eraill. Canfu'r tîm esiamplau niferus o fanteision a sicrhawyd drwy gyflwyno'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol. Mae'r manteision hyn yn cynnwys y ffaith bod gan yr athrofeydd a'r partneriaid bwyntiau cyswllt canolog a chymorth pwrpasol, wedi ei enwi, a ddarperir gan y Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol i bob partneriaeth, yn ogystal â hyfforddiant sydd wedi ei safoni, yn cynnwys yr hyfforddiant i Arweinwyr TP, a chynnydd mewn cyfleoedd i rannu arferion da, wedi eu hwyluso gan y Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol. Mae'r Arweinwyr TP eu hunain yn chwarae rôl sylweddol yn y gwaith o ddarparu cefnogaeth i'r partneriaid a monitro'r ddarpariaeth. Mae'r Arweinwyr TP yn cwblhau dau adroddiad monitro bob blwyddyn academaidd, yn gweithio'n agos ag arweinwyr y rhaglenni i wella'r dulliau darparu, ac yn rhaeadru newidiadau sy'n ymwneud â pholisiau a gweithdrefnau. **Felly, mae'r tîm adolygu'n canmol y gefnogaeth hygyrch a chynhwysfawr a ddarperir, yn arbennig gan y Swyddfa Partneriaethau Cydweithredol a'r Arweinwyr Tîmau Partneriaeth, i sefydliadau partner cydweithredol sy'n eu helpu'n effeithiol i ddeall a gweithredu gofynion PCYDDS.**

63 Canfu'r tîm fod trefniadau effeithiol yn eu lle, o dan oruchwyliaeth yr Uned Prentisiaethau, i gefnogi'r prentisiaid. Gwneir y gwaith o weithredu a monitro'r trefniadau hyn yn bennaf gan yr Uned Prentisiaethau ac mae'n cynnwys defnyddio Swyddogion Cyswllt Prentisiaid i fonitro perfformiad y prentisiaid a chadw cofnodion o gyfarfodydd. Cefnogir prentisiaid yr heddlu gan system o fentoriaid yn y gweithle yn hytrach na Swyddogion Cyswllt Prentisiaid. Barnodd adolygiad diweddar gan QAA o'r ddarpariaeth hon bod rolau cynhwysfawr yr Uned Prentisiaethau a'r

Swyddogion Cyswllt Prentisiaid yn arferion da. Ers yr adolygiad, mae'r Uned Prentisiaethau wedi cyhoeddi Llawlyfr i Gyflogwyr er mwyn gwella'r wybodaeth i sefydliadau sy'n cefnogi prentisiaid.

64 Mae protocol manwl a chynhwysfawr yn ei le ar gyfer lleoliadau gwaith i fyfyrwyr. Mae'r protocol yn cynnwys canllawiau a chyfarwyddiadau clir ynglŷn â beth i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl lleoliadau gwaith. Mae'r oruchwyliaeth o'r prosesau lleoliadau gwaith, a'r cydymffurfiad â'r prosesau hyn, yn cael ei fonitro'n effeithiol, er bod hynny'n digwydd drwy wahanol ddulliau ar draws y sefydliad. Mae'r Gofrestrfa'n gyfrifol am oruchwyllo'r prosesau o ddiogelu myfyrwyr ac asesu risgiau. Yn ogystal, mae Grŵp Lleoliadau Gwaith gan yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau er mwyn sicrhau eglurder, cysondeb a chydymffurfiad â gofynion cyrff PSRB. Mewn athrofeydd eraill, mae'r cydymffurfiad yn cael ei fonitro drwy'r broses ABRh. Canfu'r tîm hefyd fod cynlluniau wrth gefn priodol yn eu lle ar gyfer y ddarpariaeth lleoliadau gwaith yn ystod y pandemig.

65 Penderfynodd y tîm fod y Memoranda Cytundeb Ymadael, a ddefnyddir pan mae'r Brifysgol yn penderfynu terfynu partneriaeth, yn briodol. Rhoddodd y Brifysgol wybod i'r tîm ei bod, wrth weithio i sicrhau nad oes unrhyw amhariad yn torri ar brofiad y myfyrwr, yn rhoi gwybod i fyfyrwyr am gau partneriaethau ar y cam y cytunir arno gyda'r partner er mwyn helpu i gadw'r busnes yn mynd yn gyson. Fodd bynnag, mae'r tîm o'r farn bod risgiau'n gysylltiedig â phrosesau cau fel hyn sy'n cynnwys, ond sydd heb eu cyfyngu i, athreuliad posibl y staff, y gallu i reoli oedi a mynediad at adnoddau. Gallai cynnwys y myfyrwyr yn y broses ar gam cynharach helpu i leihau a rheoli risgiau o'r fath. **Felly, mae'r tîm adolygu'n argymhell bod y Brifysgol yn cynnwys myfyrwyr ei sefydliadau partner cydweithredol yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau 'addysgu allan' pan fo cyrsiau'n cael eu cau.**

66 Cadarnhaodd y myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner eu bod yn fodlon â'r wybodaeth y maent yn ei derbyn gan eu darparwyr yn ogystal â honno a ddaw gan y Brifysgol. Dywedodd y myfyrwyr hyn wrth y tîm eu bod yn elwa o strwythurau o gynrychiolaeth gyfartal sy'n sicrhau bod clust i'w llais a bod gweithredu'n digwydd mewn ymateb i'w hadborth. Soniodd y myfyrwyr hefyd eu bod yn ymwybodol o lwybrau cynnydd, yn cynnwys y rheiny i'r Brifysgol. Tynnodd nifer fechan o'r myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw sylw at broblemau gyda chael gafael ar adnoddau dysgu a ddarperir gan y Brifysgol. Cadarnhaodd y tîm mai'r cytundebau trwyddedu oedd y rheswm am hynny ac roedd hyn wedi ei nodi'n gywir, clir a manwl yn yr wybodaeth am raglenni a ddarperir i fyfyrwyr.

67 Canfu'r tîm fod y Brifysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth sefydlu llwybrau cynnydd rhwng colegau'r Grŵp a cholegau eraill yn y rhanbarth a PCYDDS. Mae data am gynnydd y myfyrwyr yn dangos twf yn y nifer rhwng PCYDDS a cholegau cyfansoddol y Grŵp Sector Deuol a rhwng y Brifysgol a'i phartneriaid addysg bellach yn y rhanbarth. Roedd y tîm yn cytuno gyda honiad y Brifysgol bod hyn yn dangos llwyddiant y llwybrau cynnydd di-dor y mae wedi eu creu. Ar y cyfan, cododd y cynnydd o fewn Grŵp PCYDDS o 39.3% rhwng 2016-17 a 2019-20, o 326 i 454. Mae'r symudiad o'r partneriaid addysg bellach yn y rhanbarth (Coleg Sir Benfro, Coleg Castell-Nedd Port Talbot, a Choleg Gŵyr Abertawe) i'r Brifysgol wedi cynyddu o 99%, o 420 i 836. Canfu'r tîm esiamplau o weithgareddau a luniwyd i gefnogi'r amcanion hyn, oedd yn cynnwys cydweithrediad agos rhwng gwasanaethau academiaidd a gwasanaethau cymorth, datblygiad cwricwla cyflenwol, yn arbennig raglenni ôl-raddedig a chyfranogaeth PCYDDS yn nigwyddiadau'r colegau sy'n ymwneud â gyrfaedd ac astudiaethau pellach. **Felly, mae'r tîm adolygu'n canmol y dull cydlynol ac effeithiol o wella cyfleoedd i'r myfyrwyr symud ymlaen o'i phartneriaid cydweithredol a rhyngddynt.**

QAA2666 - R12307 - Mehefin 2022

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2022
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk